

At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Dinas a Sir Abertawe yn 2016-2017.

<p>Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol</p>	<p>Dosbarthodd y cyngor fapiau beicio o ardal Bae Abertawe i wella'r wybodaeth am leoliad y llwybrau defnydd a rennir sydd ar gael.</p> <p>Parhaodd y cyngor i weithio mewn partneriaeth â Sustrans i hybu cerdded a beicio i blant ysgol. Targedwyd chwe ysgol fel rhan o'r ymarfer hwn.</p>
<p>Y camau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau</p>	<p>CRONFA TRAFNIDIAETH LEOL Cyflwynwyd cynigion i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol i ddatblygu a chyflwyno tri llwybr cerdded a beicio newydd; sef Ffordd Ddosbarthu'r Morfa, Achos Busnes Ffordd Fabian a datblygu Cyswllt Pontybrenin ymhellach.</p> <p>Cyfanswm hyd y llwybrau newydd yw oddeutu 1.5km.</p> <p>LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU A DIOGELWCH FFYRDD Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i osod terfyniadau cyflymder 20 mya ger ysgolion; ac ail becyn o fesurau a wellodd cyfleusterau i gerddwyr ger Ysgol yr Esgob Gore.</p>
<p>Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol.</p>	<p>CRONFA TRAFNIDIAETH LEOL Ffordd Ddosbarthu'r Morfa: Ni ellir nodi'r gost oherwydd ei bod yn rhan o gynllun mwy.</p> <p>Cyswllt Pontybrenin: £65,000</p> <p>LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU Mesurau rheoli cyflymder ger Ysgol yr Esgob Gore ac yn Sgeti: £321,600</p>

	<p>DIOGELWCH FFYRDD: Parthau 20 mya y tu allan i ysgolion: £381,400</p> <p>CYLLID Y CYNGOR: Atgyweirio difrod a achoswyd gan fonion i lwybrau defnydd a rennir ym Mhontybrenin a Phenclawdd: £3,500</p> <p>Atgyweirio ffosydd draenio ar NCN43 i'r gogledd o Bontydd Tawe. £32,000</p>
--	--

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan drydydd parti.</p>	<p>Dim.</p>
---	-------------

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a bydd ar gael hefyd fel copi caled o ofyn amdano, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Prif Weithredwr